

Rhifau ceir degol

- ◆ Pob un i ddewis rhif car tri digid.

P645 CJM

- ◆ Dewiswch ddau o'r digidau, e.e. 4 a 6. Gwnewch y rhif mwyaf a'r rhif lleiaf posib, pob un ag 1 lle degol, e.e. 4.6 a 6.4.
- ◆ Yna, dowch o hyd i'r gwahaniaeth rhwng y ddau rif degol, e.e. $6.4 - 4.6 = 1.8$.
- ◆ Bydd pwy bynnag sy'n cael y gwahaniaeth mwyaf yn cael 10 pwynt.
- ◆ Y person â'r nifer mwyaf o bwyntiau sy'n ennill.

Chwaraewch y gêm eto, ond y tro hwn cewch sgorio 10 pwynt am y gwahaniaeth lleiaf, neu 10 pwynt am y cyfanswm mwyaf.

Dod o hyd i arwynebedd a pherimedr

Perimedr = y pellter o gwmpas ymyl siâp
Arwynebedd petryal = hyd x lled


- ◆ Casglwch 5 neu 6 amlen o wahanol feintiau sydd wedi eu defnyddio.
- ◆ Gofynnwch i'ch plentyn amcangyfrif beth yw perimedr pob un i'r centimetr agosaf. Ysgrifennwch yr amcangyfrif ar y cefn.
- ◆ Nawr, mesurwch nhw. Ysgrifennwch yr amcangyfrif wrth ymyl y mesuriad.
- ◆ Pa mor agos oedd amcangyfrif eich plentyn?
- ◆ Amcangyfrifwch ac yna cyfrifwch arwynebedd pob amlen.
- ◆ P'un oedd hawsaf i'w hamcangyfrif – y perimedr neu'r arwynebedd? Pam?

Gallech wneud rhywbeth tebyg gyda hen bapur newydd, e.e.

- ◆ Cyfrifwch pa dudalen sy'n defnyddio'r arwynebedd mwyaf ar gyfer lluniau.
- ◆ Dewiswch dudalen a chyfrifwch gyfanswm arwynebedd yr erthyglau newyddion neu'r hysbysebion ar y dudalen honno.

Targedau i ddisgyblion Blwyddyn 5

YGG Castell-nedd



Llyfryn i rieni

Rhoi help llaw gyda mathemateg eich plentyn

Targedau - Blwyddyn 5 ¹

Erbyn diwedd Blwyddyn 5, bydd y rhan fwyaf o blant yn gallu ...

- Lluosi a rhannu unrhyw gyfanrif hyd at 10 000 â 10 neu 100.
- Gwybod beth yw arwyddocâd y digidau mewn rhif degol, e.e. mae'r 6 yn 2.63 yn golygu 6 degolyn a'r 3 yn golygu 3 chanfed.
- Talgrynnu rhifau ag 1 lle degol i'r cyfanrif agosaf, e.e. bydd 9.7 yn talgrynnu i 10, a bydd 147.2 yn talgrynnu i 147.
- Defnyddio rhannu i ddod o hyd i ffracsiwn rhif, e.e. dod o hyd i bumed drwy rannu â 5.
- Cyfrifo yn eu pen y gwahaniaeth rhwng dau rif fel 3994 a 9007.
- Defnyddio papur a phensil i adio a thynnu rhifau mawr, e.e. 5792 + 8436, 13 912 – 5829.
- Gwybod yr holl dablau llusoi hyd at 10 x 10 ar eu cof.
- Dyblu rhifau hyd at 100 yn eu pen.
- Defnyddio papur a phensil i luosi a rhannu, e.e. 328 x 4, 72 x 56, 329 ÷ 6.
- Tynnu llinellau a'u mesur i'r milimetr agosaf.
- Cyfrifo perimedr ac arwynebedd petryal, e.e. perimedr ac arwynebedd clawr llyfr sy'n mesur 25cm wrth 20cm.
- Datrys problemau geiriau ac esbonio'u dull.

Y targedau

Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai plant allu eu gwneud erbyn diwedd Blwyddyn 5.

Mae'n bosib bod targed yn fwy anodd mewn gwirionedd, e.e. efallai y bydd plant yn tynnu 3994 o 9007 drwy ysgrifennu mewn colofnau heb sylweddoli ei bod yn haws cyfrif ymlaen o 3994 i 9007 yn eu pen.

Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref

Faint yw hwn?

- ◆ Tra'n siopa, cyfeiriwch at eitem sy'n costio llai na £1.
- ◆ Gofynnwch i'ch plentyn gyfrifo beth fydd cost 3 eitem yn ei ben.
- ◆ Gofynnwch iddo/iddi ddyfalu yn gyntaf. Tybed pa mor gywir oedd y dyfalu?
- ◆ Os gwelwch eitemau wedi'u labelu er enghraifft, '2 am £3.50', gofynnwch iddo gyfrif beth yw cost 1 eitem, ac esbonio sut cafwyd yr ateb.



Tablau

Dwedwch dabl chwech gyda'ch gilydd ymlaen, ac yna yn ôl. Gofynnwch gwestiynau tebyg i'r rhain i'ch plentyn:

Naw chwech? Sawl chwech sydd yn 42?

Chwe gwaith pedwar? Rhannu pedwar deg wyth â chwech?

Lluosi tri â chwech? Chwe gwaith beth sy'n gwneud chwe deg?

Gwnewch yr un peth gyda thabl saith, wyth a naw.